| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2005

Diben y Rheoliadau yma yw sefydlu panelau adolygu annibynnol i adolygu penderfyniadau penodol sydd wedi’u gwneud gan banelau asiantaethau mabwysiadu.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Diben deddfwriaeth fel rheol yw nodi’r hyn sy’n ofynnol, yr hyn sy’n cael ei ganiatáu neu’r hyn sy’n cael ei wahardd, neu wneud datganiad ynghylch statws neu ganlyniad. Oherwydd hynny, dydy "bydd" ("will") ddim yn ymddangos fel berf fel arfer. Yn y Rheoliadau yma, mae’n digwydd droeon. Er enghraifft, er bod rheoliad 4(1) yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i gyfansoddi panel, a’i fod yn defnyddio "rhaid" ("must"), mae rheoliadau 4(2) a (3) yn defnyddio "bydd" mewn perthynas â chyfansoddiad y panel a’i swyddogaethau. Bernir bod dyletswydd yn cael ei gosod ar y Cynulliad yn rheoliad 4(2) o ran cyfansoddiad y panel, a bod rheoliad 4(3) yn gosod dyletswydd ar y panel. Yn y ddau achos felly fe fyddai "rhaid" yn briodol.

Yn rheoliad 5(1) mae "bydd" a "rhaid" yn cael eu defnyddio, er bod y ddwy elfen yr un mor orfodol â’i gilydd. Bernir y dylai "rhaid" gael ei osod yn lle "bydd" bob tro y bydd yn ofynnol i gorff neu berson

wneud rhywbeth. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn yr un modd, naratif yw natur "gall" ac "ni all" a dydyn nhw ddim yn cyfleu’r ystyr angenrheidiol o ganiatáu neu wahardd. Yn rheoliad 9 mae panel yn cael ei wahardd rhag cynnal busnes oni bai bod aelodau penodol yn bresennol. Gan hynny byddai "Rhaid… peidio" neu "Ni chaiff" yn fwy priodol na "Ni all". Yn rheoliad 11, caniateir i ddarpar fabwysiadwr wneud cais, felly byddai "caiff" ("may") yn fwy priodol na "gall" ("can"). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn nhestun Saesneg rheoliad 8 ceir cyfeiriad at dalu "fees", ond mae’r testun Cymraeg yn defnyddio "swm". Mae paragraff 62 o’r Arfarniad Rheoliadol yn esbonio bod newid hwyr wedi’i wneud yn y drafft i gyfeirio at "fees" yn hytrach nag "expenses". Gallai "swm" gyfeirio at y naill neu’r llall fel ei gilydd ac felly nid yw’n ddigon manwl-gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Man wallau yw’r rhain i gyd a bernir eu bod yn gallu cael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Llwyddodd y Cynghorwyr Cyfreithiol i dynnu sylw’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau at nifer fach o bwyntiau ynglyn â fformadu a’r Nodyn Esboniadol y byddai’n addas eu cywiro wrth i’r Rheoliadau gael eu cyhoeddi.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 28 Mehefin 2005